Credyd Treth Gwaith

Beth yw Credyd Treth Gwaith

Credyd Treth Gwaith (CTG) yw taliad a gaiff ei roi i bobl sy'n gweithio ar incwm isel. Telir Credyd Treth Gwaith gan Gyllid a Thollau EM (HMRC) yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu neu gyfrif cerdyn swyddfa bost.

Pwy sy'n cael Credyd Treth Gwaith

Gallwch gael CTG os ydych chi neu'ch partner yn gweithio digon o oriau pob wythnos a bod eich incwm yn ddigon isel. Mae'n rhaid eich bod yn byw yn y DU. Os ydych o dramor, mae'n bosib y byddai hawlio CTG yn anodd ond mae hyn yn dibynnu ar eich statws mewnfudiad.

Os nad ydych yn siŵr ynglŷn â'ch hawl i CTG oherwydd eich statws mewnfudiad, mynnwch gyngor gan ymgynghorydd profiadol.

Mae yna sawl gwahanol ffordd y gallwch fod yn gymwys i dderbyn CTG, yn dibynnu ar eich amgylchiadau:

Os ydych yn sengl neu mewn cwpl, a heb fod gennych blant

Os ydych yn 25 neu'n hŷn ac yn gweithio 30 awr yr wythnos neu fwy
Mae'n bosibl y cewch CTG os ydych yn 25 neu'n hŷn ac yn gweithio o leiaf 30 awr yr wythnos. Bydd p'un ai ydych yn gymwysedig yn dibynnu ar eich incwm. Nid oes raid bod plentyn gennych er mwyn hawlio, ond mae'n rhaid i chi weithio digon o oriau.

Os ydych yn 60 neu'n hŷn ac yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos
Os ydych yn 60 neu'n hŷn ac yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos, mae'n bosibl y cewch CTG.

Os ydych yn anabl
Os ydych yn 16 neu'n hŷn ac yn anabl, gallwch gael CTG os ydych yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos, os yw eich incwm yn ddigon isel ac os ydych yn derbyn un o'r budd-daliadau cymwysedig oherwydd eich anabledd. Gallai HMRC hefyd gyflwyno prawf sy'n edrych ar y ffordd mae'r anabledd neu'r salwch yn effeithio ar eich gobaith o gael swydd.

Mae'r budd-daliadau cymwysedig yn cynnwys:

- Budd-daliadau Analluogrwydd
- Lwfans Byw i'r Anabl
- Lwfans Gweini
- Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol
- Tâl Salwch Statudol
- Tâl Salwch Galwedigaethol
- Cymhorthdal Incwm

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

- Credydau yswiriant gwladol a ddyfarnwyd oherwydd nad oeddech yn medru gweithio
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm neu gyfrannol.

Mae yna reolau ynglŷn â pha mor hir yr ydych wedi derbyn rhai o'r budd-daliadau hyn cyn hawlio CTG.

Os ydych yn anabl ac nid ydych yn siŵr p'un ai eich bod yn gymwys i dderbyn CTG neu beidio, mynnwch gyngor gan ymgynghorydd profiadol.

Os ydych yn sengl ac yn gyfrifol am blentyn

Os ydych yn 16 neu'n hŷn ac yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc, gallwch gael CTG os ydych yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos a bod eich incwm yn ddigon isel. Mae rhywun yn cyfrif fel plentyn tan 1 Medi ar ôl ei ben-blwydd yn 16. Person ifanc yw rhywun sy'n 16, 17, 18 neu 19 mewn addysg lawn-amser hyd at lefel A neu gyfwerth, neu ar gwrs hyfforddiant cymwysedig penodol. Rydych chi'n gyfrifol am blentyn neu berson ifanc os ydyw fel arfer yn byw gyda chi neu chi sy'n bennaf gyfrifol am ofalu amdano
Os ydych yn gyfrifol am blentyn, mae'n bosib y gallwch gael Credyd Treth Plant yn ogystal â CTG neu yn ei le – gweler Cymorth Ychwanegol ar waelod y daflen ffeithiau.

Os ydych mewn cwpl ac yn gyfrifol am blentyn

Os ydych mewn cwpl ac yn gyfrifol am blentyn neu berson ifanc gallwch fod yn gymwysedig os

- Ydych chi yn 16 neu'n hŷn, rydych chi neu eich partner yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos, a bod y ddau ohonoch yn gweithio o leiaf 24 awr yr wythnos o gyfanswm rhyngoch . Er enghraifft, gallwch gyfarfod â'r amod hwn os ydych yn gweithio 16 awr yr wythnos a'ch partner yn gweithio 8 awr yr wythnos
- Ydych yn16 neu'n hŷn, yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos, ydych yn anabl ac yn derbyn y budd-dal cymwysedig
- Ydych yn 16 neu'n hŷn, yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos, ac mae eich partner yn glaf o fewn ysbyty neu'n gymwysedig i Lwfans Gofalwr neu yn y carchar neu'n derbyn budd-daliadau anabledd arbennig
- Ydych chi'n 60 neu'n hŷn ac yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos

Sut caiff Credyd Treth Gwaith ei gyfrifo

I wybod p'un ai eich bod yn gallu hawlio CTG a faint ohono y gallwch ei gael, bydd HMRC yn cymharu eich incwm o'r flwyddyn dreth flaenorol gyda £6,420. Os yw eich incwm yr un peth neu lai na'r ffigwr hwn, byddwch yn cael yr uchafswm o CTG (a Chredyd Treth Gwaith os yw hwn yn berthnasol i chi). Bydd hyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau. Caiff yr uchafswm o CTG y gallwch ei gael ei gyfrifo trwy adio

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

gwahanol elfennau sy'n seiliedig ar eich amgylchiadau. Mae'r elfennau hyn fel y ganlyn:

Yr **elfen sylfaenol.** Mae'r elfen hon yn berthnasol i unrhyw un sy'n hawlio CTG.

Yr **elfen ail oedolyn**. Mae'r elfen hon yn berthnasol os ydych yn hawlio fel aelod o gwpwl. Mae'n rhaid i chi hawlio fel cwpwl os ydych yn byw gyda phartner. Mae hyn yn cynnwys partneriaid o'r un rhyw yn ogystal â phartneriaid o wahanol ryw.

Yr **elfen anabledd**. Mae'r elfen hon yn berthnasol os ydych yn anabl, yn derbyn rhai budd-daliadau penodol ac yn gweithio o leiaf 16 awr yr wythnos (rydych yn gallu cael yr elfen anabledd os yw eich partner yn gallu ei hawlio, neu dwy elfen anabledd os yw'r ddau ohonoch yn gallu ei hawlio). Mae'r **elfen anabledd difrifol** yn berthnasol os ydych yn derbyn y gyfradd uchaf o Lwfans Byw i'r Anabledd neu'r gyfradd uchaf o Lwfans Gweini. Gallwch hefyd gael yr elfen anabledd difrifol ar gyfer eich partner, os ydyw'n gymwys.

Yr **elfen gofal plant** a allwch ei gael os ydych yn talu am ofal plant sy'n cael ei ddarparu gan ofalwr cofrestredig, clwb ar ôl ysgol neu ddarparwr cymwysedig arall.

Os yw eich incwm yn fwy na £6,420, fe fydd yn effeithio ar faint o CTG y gallwch ei gael.

Mae cyfrifo credyd treth yn gymhleth iawn. Mae yna holiadur ar-lein gan HMRC y gallwch ei ddefnyddio i wybod p'un ai eich bod yn gymwys i dderbyn CTG neu beidio a faint y dylech ei gael. Ewch at wefan Cyllid a Thollau EM yn www.hmrc.gov.uk. Gallwch hefyd gael cymorth gan ymgynghorydd profiadol.

Pa mor hir y telir credyd treth gwaith
Dyfernir credydau treth am flwyddyn dreth gyfan. Mae blwyddyn dreth yn rhedeg o Ebrill 6 tan Ebrill 5 y flwyddyn ganlynol. Os ydych yn hawlio ar ôl Ebrill 6, bydd eich dyfarniad yn rhedeg o'r dyddiad a wnaethoch hawlio nes diwedd y flwyddyn dreth. Os yw eich amgylchiadau yn newid yn ystod cyfnod eich dyfarniad, dylech ddweud wrth HMRC cyn gynted â phosibl, oherwydd gallai effeithio ar eich hawl i gredyd treth.

Sut i hawlio Credyd Treth Gwaith

I hawlio CTG, cysylltwch â llinell gymorth credyd treth am becyn cais. Y ffurflen gais ar gyfer eich hawliad cyntaf yw'r Ffurflen TC600.

Rhif ffôn y llinell gymorth yw 0345 300 3900 (ffôn testun 0345 300 3909) ac mae galwadau yn costio'r un faint a galwadau ffôn lleol.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Budd-daliadau a chredydau treth i bobl sy'n gweithio
- Talu credydau treth
- Budd-daliadau i deuluoedd a phlant
- Credydau treth – rhoi gwybod am newid mewn amgylchiadau
- Gordaliadau credydau treth
- Talu budd-daliadau a chredydau treth

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr, Cymru a'r Alban yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 6 Ebrill 2012, a chaiff ei hadolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio p'un ai yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir ai peidio. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho'r copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr